## Pwyllgor Menter a Busnes

Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes yn cynnal ymchwiliad byr i gynigion Horizon 2020, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Tachwedd 2011.

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn ystyried y cysylltiadau posibl rhwng Horizon 2020 a'r cynigion a wnaed ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, yn benodol o ran creu synergeddau gyda'r nod o wella perfformiad cyffredinol prifysgolion a busnesau Cymru mewn perthynas â rhaglenni ymchwil yr UE.

Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad fel a ganlyn:

- asesu effeithiau posibl cynigion deddfwriaethol drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Horizon 2020 yn y dyfodol ar Gymru, boed yn rhai cadarnhaol neu'n rhai negyddol;
- gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch yr hyn y dylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu wrth geisio dylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y DU yng Nghyngor y Gweinidogion, a bwydo'r argymhellion hyn i mewn i'r trafodaethau sy'n cael eu cynnal ym Mrwsel (gan gynnwys y trafodaethau yn Senedd Ewrop);
- asesu'r cyfleoedd sydd ar gael i greu synergeddau rhwng Horizon 2020 a Chronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru yn y dyfodol, gyda'r nod o wella cyfranogiad Cymru yn Horizon 2020.
- ystyried sut y mae strategaeth gwyddoniaeth Cymru, a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r mater dan sylw, yn ceisio cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i sefydliadau yng Nghymru i elwa ar gyllid ymchwil ac arloesi'r UE yn y dyfodol.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i **Pwyllgor.menter@cymru.gov.uk**, neu anfonwch eich tystiolaeth drwy'r post at:

Siân Phipps
Clerc
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd CF99 1NA

Dylai eich cyflwyniadau ddod i law erbyn dydd Llun 23 Ebrill 2012. bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a fydd yn dod i law ar ôl y dyddiad hwn.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.